**Julie Morgan AS/MS**
**Deputy Minister for Health and Social Services**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1145
Ein cyf/Our ref VG/02679/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA
Seneddpetitions@senedd.cymru

1 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr 9 Chwefror ynghylch deiseb i ganiatáu i rieni plant ifanc yrru i ddefnyddio parciau a meysydd chwarae tra bo cyfyngiadau lefel rhybudd pedwar ar waith.

Ni chaniateir teithio heb esgus rhesymol yn lefel rhybudd pedwar. Mae gan berson esgus rhesymol os yw'n teithio at ddiben sydd yn rhesymol angenrheidiol ac oes nad oes unrhyw ddewis arall ymarferol rhesymol. Darperir enghreifftiau o'r dibenion hyn yn Atodlen 4, Rhan 3 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Rhif 5 (Cymru) 2020.

Caniateir i barciau a meysydd chwarae aros ar agor ar gyfer ymarfer awyr agored. Gall pobl ymweld â pharciau a meysydd chwarae gyda phobl eraill at ddibenion ymarfer corff ar yr amod eu bod yn dilyn y rheolau ynghylch gyda phwy y maent yn gallu ymarfer.

Rhaid i ymarfer corff, gan gynnwys ymarfer mewn parciau a meysydd chwarae gael ei wneud yn lleol a dechrau o gartref. Ni ddylid teithio pellter sylweddol i unrhyw leoliadau, gan gynnwys teithio i lecynnau hardd, parciau a meysydd chwarae.

Gwn fod y cyfyngiadau hyn yn gallu bod yn heriol, ond mae'n bwysig nad yw pobl yn teithio ar hyn o bryd tra bo'r risg o haint yn uchel ac wrth inni flaenoriaethu cael plant yn ôl i'r ysgol. Mae aros gartref ac ymarfer yn lleol yn bwysig wrth helpu i atal yr haint rhag lledaenu a diogelu Cymru. Gall teithio er mwyn cymryd ymarfer olygu bod pobl yn ymgynnull mewn llecynnau hardd gan ei gwneud yn anodd i'r heddlu orfodi'r darpariaethau aros gartref.

Mae hyn yn arbennig o bwysig  ar hyn o bryd, gan mai'r ffurf gryfaf ar y feirws yn y gymuned yw'r amrywiolyn trosglwyddadwy iawn a nodwyd gyntaf yng Nghaint. Nid ydym am i'r feirws ddechrau ennill tir eto ar adeg pan fo achosion yn dechrau dod o dan reolaeth a phan fo cyfraddau brechu'n codi bob dydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Rhif 5 (Cymru) 2020 rhaid adolygu'r cyfyngiadau bob 21 diwrnod er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur, yn effeithiol ac yn angenrheidiol. Mae'r adolygiadau'n ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn ogystal â'r goblygiadau economaidd-gymdeithasol a'r goblygiadau llesiant ehangach.

Mae achosion o'r coronafeirws yn parhau i ostwng ledled Cymru ac mae'r pwysau ar ein GIG yn dechrau gostegu. Er hynny, mae nifer y bobl sy'n profi'n bositif yn dal yn uchel ac mae gormod o bobl yn ddifrifol sâl ac yn yr ysbyty o hyd. Rhaid inni beidio â gadael i'r feirws ennill tir eto trwy lacio'r cyfyngiadau'n rhy fuan.

Yn gywir,


**Julie Morgan AS/MS**
Deputy Minister for Health and Social Services
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol